DATGANIAD GAN Y CABINET

TEITL: **Datganiad yn unol â Rheol Sefydlog 21.16 - Gynllun Casglu Cyngor y Celfyddydau**

DYDDIAD: **19 Mai 2004**

GAN: **Cyngor Celfyddydau Cymru - Cynllun Casglu**

Llywydd, hoffwn wneud datganiad ar y Cynllun Casglu sy'n gwneud darnau cyfoes o gelf yn fforddiadwy i bobl yng Nghymru, drwy roi cyfle iddynt gael benthyciad di-dâl i brynu darnau cyfoes o gelf a chrefft Cymreig. Mae 79 o orielau yng Nghymru ar hyn o bryd yn rhan o Gynllun Casglu Cyngor y Celfyddydau sy'n cynorthwyo preswylwyr yn y DU sy'n 18 oed a throsodd i brynu gweithiau celf a chrefft gwreiddiol gan artistiaid cyfoes. Gall unrhyw un sy'n ymweld ag oriel sy'n rhan o'r cynllun ac sydd am brynu eitem sydd ar werth gael credyd di-dâl rhwng £50 a £2,000 i brynu darn neu ddarnau o waith. Gall yr eitemau gynnwys darlun, gwaith arian, cerameg, cerflun, gemwaith, print, ffotograffiaeth neu decstil.

Ar ôl dewis eitem i'w phrynu bydd angen blaendal o 10% o gyfanswm y gost, a bydd staff yr oriel yn eu tywys drwy'r gwaith papur ac yn cyflwyno cais i Gyngor Celfyddydau Cymru ar eu rhan. Fel rheol caiff y benthyciad ei gymeradwyo mewn saith i ddeg diwrnod.

Mae'r benthyciadau yn amrywio rhwng £50 i £2,000. Rhaid ad-dalu'r benthyciad dros gyfnod o 10 i 15 mis yn dibynnu ar faint y benthyciad. £10 yw isafswm y taliad misol.

Fodd bynnag, mae problem fawr ynghylch y cynllun. Bu'r cynllun mor llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf fel nad oedd modd i Gyngor y Celfyddydau ariannu pob cais gan fod y gyllideb wedi'i disbyddu. Bydd

benthyciad y Principality yn dyblu maint y gronfa i £1.1 miliwn a bydd hyn yn galluogi hyd yn oed mwy o bobl i brynu a chasglu darnau o gelf a'u mwynhau yng nghysur eu cartrefi.

Mae'r Principality wedi cytuno â Chyngor y Celfyddydau i dderbyn cyfradd llog o 3% ar eu benthyciad, sef tua hanner y gyfradd ddisgwyliedig. Rhaid croesawu'r estyniad hwn i brosiect gwerth chweil ac mae'n bleser gan Lywodraeth y Cynulliad warantu gwerth benthyciad y Principality. Er hynny, dengys y profiad o weithredu'r cynllun presennol y bydd modd i Gyngor y Celfyddydau fforddio'r 3% sy'n daladwy i'r Principality o'r ardoll o 4% y mae'n ei dderbyn gan yr orielau sy'n rhan o'r cynllun am bob pryniant – swm sydd hefyd yn mynd at weinyddu'r cynllun.

Wrth i'r Cynllun Casglu ehangu, bydd hyn yn caniatáu i fwy o orielau gael eu cofrestru gyda'r cynllun ac yn galluogi mwy o fenthyciadau. Ni fydd maint a chyfnodau'r benthyciadau yn newid. Bydd y cynllun ehangach o fantais i artistiaid sy'n gweithio ac yn arddangos yng Nghymru, i orielau yng Nghymru ac i bobl sy'n dymuno bod yn berchen ar waith celf. Mae'n enghraifft ardderchog o'r sectorau preifat a chyhoeddus yn cydweithio i hyrwyddo mynediad ehangach i gelf.

Dyma Drafodiad Hysbysadwy o dan Reol Sefydlog 21.16. Mae'r Trafodiad Hysbysadwy yn golygu gweithredu rhwymedigaeth wrth gefn fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 21.19, sef gwarant o fenthyciad oddi wrth Gymdeithas Adeiladu'r Principality i Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn galluogi Cyngor y Celfyddydau i ehangu ei Gynllun Casglu.

Amcangyfrifir mai £500,000 yw swm y rhwymedigaeth. Hoffwn bwysleisio bod hon yn rhwymedigaeth amodol yn hytrach nag un gwirioneddol ac ni ddisgwylir colledion sylweddol. Amcangyfrifir y bydd y rhwymedigaeth yn para o 1 Awst 2004 hyd 31 Gorffennaf 2007. Y rheswm dros weithredu'r rhwymedigaeth a chynnwys y cyrff dan sylw yw hyn:

Credaf y bydd ehangu'r cynllun yn cynyddu'r galw am wneuthurwyr celf yng Nghymru – y cerflunwyr, arlunwyr, ffotograffwyr, cerflunwyr tecstilau a cheramegyddion sy'n cyfrannu'n fawr i fywyd diwylliannol Cymru.